**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg:
Llywodraeth Cymru

25 Hydref 2023

**Cefnogaeth yn y dyfodol i Duolingo**

Annwyl Jeremy

Ysgrifennaf atoch yn dilyn adroddiadau diweddar na fydd Duolingo bellach yn diweddaru nac yn golygu'r cwrs Cymraeg o ddiwedd mis Hydref 2023. Fel yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno, mae'r newyddion hyn yn peri pryder mawr o ystyried nifer y dysgwyr sy'n defnyddio Duolingo, naill ai'n unig neu ochr yn ochr â darpariaeth ffurfiol, i ddysgu Cymraeg.

Buaswn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu:

- Pryd y cawsoch eich hysbysu'n gyntaf o gynlluniau Duolingo;
- Pa drafodaethau sydd wedi cael eu cynnal gennych chi neu eich swyddogion â Duolingo am y mater hwn, naill ai cyn, neu ers y cyhoeddiad hwn;
- Pa drafodaethau rydych chi wedi'u cael gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ynghylch ei rôl wrth barhau i greu cynnwys ar gyfer Duolingo;
- Pa oblygiadau posibl sy'n bodoli o ran y Ganolfan Genedlaethol pe caiff ei chynnig i helpu gyda gwaith datblygu'r cwrs Cymraeg ar Duolingo ei dderbyn.

Rydych wedi datgan yn y gorffennol y bydd y bartneriaeth rhwng Duolingo a'r Ganolfan Genedlaethol "yn creu hyd yn oed yn fwy o gyfleoedd i bobl fwynhau dysgu a defnyddio'r Gymraeg." Mae'r adnodd hwn, felly, yn rhan tyngedfennol wrth weithio tuag at yr uchelgais o sicrhau 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, sy'n nod y gwn eich bod wedi ymrwymo i'w chyflawni.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb maes o law.

Yn gywir

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.